

## **Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Tŷ Doctor, Nefyn / Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 11 Chwefror 2020

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| 1. Yr hyn a wnaethom.....  | 6  |
| 2. Crynodeb o'n harolygiad.....  | 7  |
| 3. Yr hyn a nodwyd gennym .....  | 8  |
| Ansawdd profiad y claf .....   | 10 |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                   | 15 |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....                                  | 19 |
| 4. Beth nesaf? .....   | 21 |
| 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu .....                     | 22 |
| Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 23 |
| Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                               | 24 |
| Atodiad C – Cynllun gwella.....  | 25 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Tŷ Doctor yn Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 10 Chwefror 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), ac adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith gan Tŷ Doctor i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod profiad y cleifion yn y practis hwn yn rhagorol neu'n dda iawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd croesawgar
- Gwybodaeth i gleifion ac ymgysylltu â chleifion
- Dulliau da o gadw cofnodion
- Roedd yr amgylchedd mewnol o safon dda ac yn darparu ardaloedd eistedd ac ystafelloedd ymgynghori cyfforddus.
- Dywedodd y cleifion fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch
- Roedd y cofnodion o'r ymgynghoriadau â'r cleifion o safon dda.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Defnyddio set gytûn o godau Read
- Datblygu polisi iechyd a diogelwch lleol
- Sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol eu cofnodi.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Tŷ Doctor yn darparu gwasanaethau i tua 4,700 o gleifion yn ardal Nefyn, Gwynedd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau feddyg teulu, dau uwch-ymarferydd nyrsio, uwch-ymarferydd ym maes gwasanaethau ffisiotherapi, uwch-ymarferydd ym maes awdioleg, dwy nyrs practis, un ymarferydd cynorthwyol ac ymwelydd gofal iechyd. Caiff y practis ei gefnogi gan reolwr practis dynodedig a dirprwy reolwr y practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinig i Bobl Iach
- Clinig Asthma
- Clinig Pwysedd Gwaed Uchel
- Clinig Diabetes
- Clefyd Cronig Rhwystrol y Galon a Spirometreg
- Clinig Clefyd Coronaidd y Galon
- Clinig Clefyd Cronig yr Arennau
- Clinig Strôc
- Profion Ceg y Groth
- Arolygu Iechyd Plant
- Clinig Imiwneiddio Plant
- Brechiadau Ffliw / yr Eryr
- Brechiadau cyn Teithio
- Clinig Gwrthgeulo

- Archwiliadau Iechyd i Gleifion Newydd
- Clinig Cryotherapi
- Clinig Anabledd Dysgu



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Tŷ Doctor yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol iawn, a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd gan y practis system ar waith er mwyn galluogi'r cleifion i godi pryderon a gwneud cwynion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Cawsom gyfanswm o 36 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif llethol o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn gleifion ers mwy na dwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

*"Mae'n wych bob amser"*

*"Maent yn gwranddo"*

*"Mae'r gwasanaeth yn y feddygfa hon yn rhagorol. Mae'r holl staff yn ofalgar ac yn gwrtais"*

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Gwnaeth rhai cleifion awgrymu'r gwelliannau canlynol:

*"Cael meddyg teulu benywaidd"*

*"Bod ar gael y tu allan i oriau"*

*"Bod yn gyflymach wrth archebu presgripsiynau"*

## **Cadw'n iach**

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain, gan fod y staff yn rhoi cyngor iddynt ar sut i hybu eu hiechyd, a bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hefyd sgrin deledu yn yr ardal aros a oedd yn arddangos gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth am y practis.

Gwelsom fod y practis yn gweithredu system brysbennu<sup>1</sup> i gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i'w helpu er mwyn lliniaru'r pwysau ar y staff clinigol yn y practis.

Roedd pobl â chyfrifoldebau gofalu wedi cael eu nodi a rhoddwyd cyngor a gwybodaeth iddynt am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai fod o gymorth iddynt. Roedd un aelod o'r staff yn cyflawni rôl Hyrwyddwr Gofalwyr a byddai'n rhoi llais i'r gofalwyr yn y practis ac yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer gwybodaeth i ofalwyr.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg<sup>2</sup>.

## **Gofal ag urddas**

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan staff y practis.

Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gallent weld eu dewis feddyg bob amser.

Gwelsom y staff yn cyfarch pobl mewn ffordd broffesiynol ond cyfeillgar wrth ddesg y dderbynfa ac yn ystod sgysiau ffôn.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a gwelsom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion wedi cael eu hystyried. Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael

---

<sup>1</sup> Mae'r broses brysbennu yn ymwneud â rhoi blaenoriaeth i driniaethau cleifion yn seiliedig ar ddifrifoldeb eu cyflwr.

<sup>2</sup> Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

sgyrsiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb, allan o glyw'r cleifion.

Roedd y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan roedd y staff yn gweld cleifion. Roedd llenni ar gael hefyd o amgylch gwelyau archwilio. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod apwyntiadau.

Roedd yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i nodi'n glir yn yr ystafell aros. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn y practis yn gweithredu fel hebryngwr, a bod pob un ohonynt wedi cael y canllawiau a'r hyfforddiant perthnasol.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Fel y soniwyd eisoes, roedd taflenni gwybodaeth iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd a rheoli hunanofal ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, a dywedodd y cleifion hyn wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Darparwyd dolen clyw er mwyn helpu'r cleifion hynny sydd â nam ar eu clyw i gyfathrebu.

Roedd prosesau cadarn ar waith i reoli gohebiaeth a dderbynnir gan y practis ac roedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol ar y system rheoli cofnodion electronig.

## **Gofal amserol**

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn ar oriau agor y practis. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd angen.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un da neu dda iawn.

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys ymlaen llaw rhwng dydd Llun a dydd Gwener, dros y ffôn. Gwelsom hefyd fod y practis yn cynnal rhywfaint o apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau brys. Roedd y practis hefyd yn defnyddio cyfleuster Fy lechyd Ar-lein<sup>3</sup> i drefnu apwyntiadau â meddygon teulu. Dylid annog y cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster hwn oherwydd gallai leihau'r pwysau ar y llinellau ffôn.

Yn ogystal â gweld cleifion â mân salwch, roedd y tîm nyrsio hefyd yn rhedeg nifer o glinigau ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd cronig megis gwiriad diabetes, adolygiad asthma a phroffion ceg y groth.

Gwelsom fod atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud mewn ffordd amserol.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda iawn ac yn gwneud addasiadau yn unol ag anghenion unigol pobl ar sail y wybodaeth hon.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Roedd y practis mewn adeilad pwrpasol ac roedd wedi cael ei adnewyddu i safon uchel iawn. Roedd gan yr adeilad fynediad da i bobl anabl gyda digon o leoedd parcio yn y maes parcio ar gyfer y staff, y cleifion ac ymwelwyr.

---

<sup>3</sup> <https://www.myhealthonline-inps2.wales.nhs.uk/web/ps/welcome>

Roedd toiledau a oedd yn addas i bobl anabl yn yr ardal aros i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd pob un o ystafelloedd ymgynghori'r meddygon teulu, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori, yr ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd triniaeth yn fawr ac yn cynnwys adnoddau da iawn.

Roedd rhan o ddesg y dderbynfa ar lefel is i ddefnyddwyr cadair olwyn.

### **Hawliau pobl**

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gleifion ag anghenion a gofynion iaith amrywiol, fel y disgrifir uchod.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd protocol cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

### **Gwrando ar adborth a dysgu ohono**

Roedd gweithdrefn gwyno fewnol ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Rhoddwyd pwyslais ar ddelio â ffynhonnell unrhyw gwynion er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi'r angen i uwchgyfeirio.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael i gleifion roi adborth neu awgrymiadau. Dywedwyd wrthym fod unrhyw sylwadau neu adborth yn cael eu hadolygu, a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn eu cylch. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i arddangos dadansoddiad o'r adborth a gafwyd yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i'r cleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cytunodd y practis i wneud hynny.

Gwelsom nad oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion ar waith. Mae grwpiau cyfranogiad cleifion yn rhoi gwybodaeth werthfawr i bractisau am y gwasanaethau a ddarperir ac yn cyfleu profiadau cleifion uniongyrchol. Dylai'r practis ystyried y maes hwn o werthuso'r gwasanaeth fel ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gleifion. Roedd system gyfathrebu fewnol effeithiol ar waith.

Roedd gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym o safon dda.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân iawn ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn rheolaidd. Rhoddwyd sicrwydd llafar i ni bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn wythnosol. Fodd bynnag, ni chafodd yr ymarferion tân hyn eu dogfennu. Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Gwelsom fod polisi Iechyd a Diogelwch y bwrdd Iechyd ar gael i'r practis. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw bolisi Iechyd a diogelwch lleol yn y practis. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod polisi Iechyd a diogelwch lleol yn cael ei lunio a'i roi ar waith yn y practis, gan ddefnyddio polisi'r bwrdd Iechyd fel model.

Gwelsom hefyd fod y bwrdd iechyd lleol yn cefnogi'r practis yn y gwaith o adolygu a diweddarau ei asesiadau risg o ran iechyd a diogelwch a'i gofrestr risg.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ymarferion tân wythnosol yn cael eu cofnodi.

Sicrhau bod polisi iechyd a diogelwch lleol yn cael ei lunio a'i roi ar waith.

### Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Gwelsom fod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, a gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau plastig tafladwy, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn ymddangos yn lân iawn ac yn drefnus.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd cynwysyddion glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Roedd y gwastraff wedi'i rannu mewn cynwysyddion/bagiau lliw gwahanol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gallai gael ei gasglu'n ddiogel.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith.

### Rheoli meddyginiaethau

Gellid gofyn am bresgripsiynau amlroddadwy yn bersonol yn y practis neu drwy'r post, neu drwy gwblhau'r rhestr rwygo ar gyfrifiadur, neu drwy ddefnyddio cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein. Nodwyd bod y practis yn gwneud ymdrech i ddychwelyd presgripsiynau i gleifion o fewn 48 awr. Nid oedd y practis yn derbyn presgripsiynau amlroddadwy dros y ffôn am resymau yn ymwneud â diogelwch.

Gwelsom fod y practis wedi bod yn adolygu achosion a / neu wedi cynnal archwiliadau rhagnodi yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth ddiangen, neu feddyginiaeth nad oedd y cleifion yn ei chymryd mwyach, yn cael ei thynnu o'r rhestr presgripsiynau amlroddadwy.

Gwelwyd bod cyffuriau ac offer argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system ar gyfer dangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal.

### **Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg**

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau amddiffyn plant a diogelu oedolion ar waith.

Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff fel yr arweinydd diogelu enwebedig.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Roedd y staff yn gwybod sut i nodi arwyddion o gam-drin ymhlith oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rhannu gwybodaeth, dogfennu pryderon yn ymwneud â diogelu a sut i gysylltu ag asiantaethau perthnasol.

Disgrifiodd y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<sup>4</sup> ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt.

### **Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig**

Gwelsom fod dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi yn rheolaidd.

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau bod cyfarpar meddygol yn cael ei wasanaethu a'i galibradu er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddiogel i'w ddefnyddio.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y practis yn

---

<sup>4</sup> Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.



defnyddio system Datix<sup>5</sup> ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd clinigol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw dan glo ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd prosesau diogel ar waith i gael mynediad at gyfrifiaduron ac nid oedd y sgriniau yn weladwy i bobl eraill. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff am yr hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

### Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng y staff clinigol a'r cleifion, ac roedd modd gweld canlyniad ymgynghoriadau a'r cynllun ar gyfer y gofal.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio set gytûn o godau Read<sup>6</sup> i gofnodi cyflyrau cyffredin. Gwelsom fod y codau Read yn unol â dewis personol y meddygon teulu. Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â'r uwch-feddyg yn uniongyrchol, a roddodd sicrwydd i ni bod cynlluniau ar waith eisoes i wella'r defnydd o godau Read. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau y caiff set safonol o godau Read ei rhoi ar waith a'i defnyddio gan y tîm clinigol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod set gytûn o godau Read yn cael ei rhoi ar waith yn y practis.

---

<sup>5</sup> Meddalwedd ar y we ar gyfer rheoli risg a rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yw Datix.

<sup>6</sup> Codau Read yw'r system terminoleg glinigol safonol a ddefnyddir gan feddygon teulu yn y Deyrnas Unedig. Mae'n golygu y gellir amgodi ffenomena cleifion lluosog mewn ffordd glinigol a manwl, gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion, symptomau ac arsylwadau clinigol; profion labordy a chanlyniadau; diagnosisu; triniaethau diagnostig, therapiwtig neu lawfeddygol a gyflawnwyd; ac amrywiaeth o eitemau gweinyddol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion a oedd yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom y staff yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio'n dda fel tîm.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr y practis a dirprwy reolwr y practis yn ymrwymedig iawn ac yn ymroddedig i'w rôl yn y practis. Gwelsom fod y staff yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais â'i gilydd yn y practis. Rhoddodd y staff wybod i ni eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion gyda rheolwr y practis, dirprwy reolwr y practis a/neu'r uwch-feddyg teulu, ac y byddent yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr. Roedd y tîm arwain yn dangos dulliau cynhwysol o reoli, hyrwyddo dull gweithredu agored a thryloywder.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu parchu ac yn eu cefnogi.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi pryderon gyda'r tîm arwain.

Roedd gan y staff fynediad at yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i'w llywio yn eu gwaith o ddydd i ddydd, a oedd ar gael ar ffurf papur ac yn electronig. Fodd bynnag, gwelsom ei bod yn anodd dod o hyd i rai bolisïau a gweithdrefnau ar y gyriant a rennir yn y practis. Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal adolygiad cyffredinol o'r holl bolisïau a gweithdrefnau a llunio mynegai priodol er hwylustod.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal adolygiad cyffredinol o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar y gyriant a rennir, gan sicrhau y gellir cael gafael arnynt yn hawdd.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd tîm sefydlog o staff derbynfa a staff gweinyddol yn y practis.

Wrth drafod â'r staff ac adolygu sampl o gofnodion staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol o fewn y practis.

Cadarnhaodd y tîm arwain bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol ac wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol. Rhoddwyd gwybod i ni fod cofnodion hyfforddiant yn cael eu monitro gan y tîm arwain. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd matrices hyfforddiant ar gael. Cadarnhaodd yr holl aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol a'u bod wedi cael arfarniad staff blynyddol.

Rhoddwyd gwybod i ni fod y tîm yn cyfarfod yn anffurfiol, yn rheolaidd, i drafod unrhyw faterion. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw. Gwnaethom argymhell i'r practis y dylid cymryd cofnodion o bob cyfarfod tîm, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ac y dylid cadw'r cofnodion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau y caiff matrices hyfforddiant ei ddatblygu at ddibenion monitro.

Sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol eu cynnal a'u cofnodi.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                    | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|----------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |  |  |                                  |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth: Tŷ Doctor

### Dyddiad arolygu: 12 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith                               | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------|-----------------------------|------------------|----------|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |       |                             |                  |          |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (priflythrennau):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Tŷ Doctor

### Dyddiad arolygu: 11 Chwefror 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                                     | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyf-rifol      | Amserlen |
|--|---|---|------------------------|----------|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b>  |   |   |                        |          |
| Dd/G   |   |   |                        |          |
| <b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>                                  |   |   |                        |          |
| Rhaid i'r practis sicrhau y caiff ymarferion tân wythnosol eu cofnodi.     | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Yn dilyn argymhellion yr arolygiad, caiff ymarferion tân wythnosol eu cofnodi bell-ach mewn cofnodlyfr Tân a Diogelwch ADT.   | ACW-Derbyn-ydd/Gofalwr | Parhaus  |
| Sicrhau y caiff polisi iechyd a diogelwch lleol ei lunio a'i roi ar waith. |   | Gan ddefnyddio Polisi Iechyd a Diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Bractisau Meddygon Teulu fel templed, bydd y gwaith i roi Polisi Iechyd a Diogelwch lleol ar waith yn parhau. | HG-Rheolwr y Practis   | 12 mis   |



| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon  | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyf-rifol  | Amserlen  |
|---|--|--|--|---|
| <p>Rhaid i'r practis sicrhau y caiff set o godau Read y cytunir arni ei rhoi ar waith yn y practis.</p>                                       | <p>3.5 Cadw cofnodion</p>                          | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y practis yn defnyddio mwy o dempledi wedi'u safoni er mwyn casglu data ystyrlon.</li> <li>Bydd y practis yn sicrhau bod mwy o swyddogaethau bysell gyflym F12 ar gael ar system TG y practis. Caiff codau Read y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ar lefel y practis eu pennu ar gyfer protocolau o fewn y swyddogaeth hon.</li> </ul> | <p>HG-Rheolwr y Practis<br/>NMJ-Dirprwy Reolwr y Practis</p> | <p>Parhaus</p>  |
| <p><b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b></p>   |  |  |  |   |
| <p>Cynnal adolygiad cyffredinol o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ar y gyriant a rennir, gan sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r rhain.</p> | <p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p> | <p>Cafodd y polisiâu a gweithdrefnau ar y gyriant a rennir eu tacluso gan Reolwr y Practis ar ôl yr arolygiad.</p>   | <p>HG-Rheolwr y Practis</p>                                  | <p>Cwblhawyd 28/02/2020</p>   |
| <p>Sicrhau y caiff matrices hyfforddiant ei ddatblygu at ddibenion monitro.</p>   | <p>7.1 Y Gweithlu</p>                              | <p>Mae matrices hyfforddiant wedi cael ei sefydlu bellach, sy'n adnodd defnyddiol ar gyfer olrhain hyfforddiant a lefelau sgiliau yn ein sefydliad. Mae hefyd yn sicrhau bod y practis yn gallu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tynnu sylw at anghenion hyfforddiant</li> </ul>  | <p>NMJ-Dirprwy Reolwr y Practis</p>                          | <p>Cwblhawyd y matrices ar 08/06/2020, a chaiff ei adolygu/ei ddiweddarau'n</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                      | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol     | Amserlen                |
|---|-------|--|----------------------|-------------------------|
|   |       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Tynnu sylw at bwy sy'n gallu dirprwyo yn ystod cyfnod o salwch neu wyliau heb effeithio ar berfformiad na gwasanaethau.</li> </ul>  |                      | rheolaidd o hyn ymlaen. |
| Sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol eu cynnal a'u cofnodi. |       | <p>Bydd Rheolwr y Practis yn cynnal gwaith monitro er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff cofnodion cyfarfodydd clwstrwr eu cymryd a'u dosbarthu</li> <li>Caiff "sgrymiau" anffurfiol i dimau eu cofnodi</li> <li>Caiff cofnodion cyfarfodydd ffurfiol y practis eu cymryd a'u dosbarthu</li> <li>Caiff cofnodion cyfarfodydd y Tîm Adnoddau Cymunedol eu cymryd</li> <li>Caiff cyfarfodydd Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol eu recordio drwy DATIX</li> </ul> | HG-Rheolwr y Practis | Parhaus                 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): HELEN GRIFFITH**

**Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS**

**Dyddiad: 14/06/2020**